

Siâp, safle a symudiad

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - ystod	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
<p>Defnyddio iaith bob dydd i ddisgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau 2D a 3D cyffredin.</p> <p>Defnyddio iaith bob dydd i gymharu a disgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau rheolaidd.</p> <p>Delweddu ac enwi siapiau 2D a solidau 3D.</p> <p>Adnabod, defnyddio a gwneud patrymau sy'n ailadrodd.</p> <p>Didoli a dosbarthu siapiau, gan ddangos y maen prawf y maent wedi ei ddefnyddio.</p>	<p>Deall, defnyddio a dechrau darllen geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Enwi a dosbarthu siapiau a disgrifio rhai o'u nodweddion.</p> <p>Gwneud modelau, siapiau a phatrymau a disgrifi'u nodweddion.</p> <p>Didoli a dosbarthu siapiau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf.</p>	<p>Deall a defnyddio priodweddau siapiau:</p> <p>Deall cyfathiant siapiau 2-D</p> <p>Gwybod a defnyddio priodweddau siapiau 2-D (polygon) a 3-D (polyhedron) cyffredin</p> <p>Gwneud siapiau a phatrymau 2-D a 3-D yn fwyfwy manwl gywir</p> <p>Enwi a dosbarthu siapiau 2-D yn ôl priodweddau ochr ac ongl</p>	<p>Defnyddio, darllen a dechrau ysgrifennu geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Enwi a disgrifio rhai o briodweddau siapiau 2D a 3D.</p> <p>Dosbarthu siapiau mewn amryw o ffyrdd e.e. pedrochrau, nifer o wynebau, ymylon, fertigau; mathau o wynebau.</p> <p>Disgrifio a darganfod safle sgwâr ar grid o sgwariau gyda rhesi a cholofnau wedi'u labeli.</p> <p>Defnyddio, darllen a dechrau ysgrifennu geirfa safle, cyfeiriad a symudiad. Defnyddio'r pedwar pwynt cwrpawd i ddisgrifio cyfeiriadau.</p> <p>Nodi llinellau cymesur mewn siapiau syml ac adnabod siapiau heb linellau cymesur. Braslunio adlewyrchiad siâp syml mewn llinell ddrych ar hyd un ymyl.</p> <p>Nodi onglau sgwâr mewn siapiau 2D a'r amgylchedd. Deall bod llinell syth yn ddwy ongl sgwâr.</p>	<p>Defnyddio, darllen ac ysgrifennu geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Creu modelau, siapiau a phatrymau gyda chywirdeb cynyddol.</p> <p>Gwneud patrymau drwy drawsffudo siâp drosodd a throssodd.</p> <p>Dosbarthu siapiau mewn amryw o ffyrdd e.e. nifer o onglau sgwâr, rheolaidd/afreolaidd, cymesuredd, priodweddau.</p> <p>Disgrifio a darganfod safle pwynt ar grid lle mae'r llinellau wedi'u labeli. Dechrau defnyddio'r term cyfesuryn.</p> <p>Defnyddio'r wyth pwynt cwrpawd i ddisgrifio safle, cyfeiriad a symudiad o gwmpas grid.</p> <p>Braslunio adlewyrchiad siâp syml mewn llinell ddrych sy'n baralel i un ochr (pob llinell yn baralel neu'n berpendicwlar i'r llinell ddrych).</p> <p>Gwybod bod tro cyfan yn 4 ongl sgwâr, a bod chwarter tro yn 1 ongl sgwâr, neu'n 90°. Gwybod bod onglau'n cael eu mesur mewn graddau. Gwneud a mesur troeon clocwedd a gwrthglocwedd, a'u disgrifio yn nhermau graddau.</p>	<p>Enwi a disgrifio priodweddau petryalau, trianglau, polygonau rheolaidd a solidau 3D gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir.</p> <p>Luniadu siapiau 2-D cyffredin mewn gwahanol gyfeiriadaethau ar gridiau ac adnabod y rhai cyfath.</p> <p>Adnabod llinellau paralel a pherpendicwlar.</p> <p>Defnyddio eu gwybodaeth o siâp i wneud modelau mathemategol 3-D a phennu ac arlunio rhywidi o siapiau 3D.</p> <p>Dosbarthu trianglau (isosgeles, hafalochrog, anghyfochrog), gan ddefnyddio meini prawf megis onglau hafal, ochrau hafal, llinellau cymesuredd.</p> <p>Defnyddio a dehongli cyfesurynnau yn y pedrant cyntaf.</p> <p>Cwblhau patrymau gyda dwy linell cymesuredd. Adnabod cymesuredd adlewyrchol mewn polygonau rheolaidd. Llunio safle siâp ar ôl adlewyrchiad neu drawstudiad.</p>	<p>Disgrifio priodweddau siapiau 2D a 3D megis ochrau neu ymylon paralel neu berpendicwlar, gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir.</p> <p>Gwneud a llunio siapiau gyda chywirdeb cynyddol, a gosod gwybodaeth o'u priodweddau.</p> <p>Dosbarthu pedrochrau e.e. paralelogram, rhombws, barcud, trapesiwm gan ddefnyddio meini prawf megis ochrau paralel, ochrau hafal, onglau hafal a llinellau cymesuredd.</p> <p>Defnyddio cyfesurynnau mewn dau bedrant i lunio, lleoli a chwblhau siapiau sy'n bodloni priodweddau penodol.</p> <p>Adlewyrchu siapiau syml mewn llinell ddrych (gan gynnwys rhai nad ydynt yn baralel nac yn berpendicwlar i'r llinell ddrych). Dechrau deall y syniad o gylchdroi. Delweddu a llunio ble byddai siâp ar grid wedi adlewyrchu a thrawsfudo.</p> <p>Amcangyfrif onglau, a defnyddio onglydd i fesur a llunio onglau llem ac aflem i'r 5° agosaf. Cyfrifo onglau mewn triongl neu o gwmpas pwynt.</p>

